# Grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd Bioamrywiaeth Cymru

Cofnodion y cyfarfod cyntaf
12 Chwefror 2009
CCGC, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd

**Yn bresennol**
Barbara Jones (Cadeirydd, CCGC)
Helen Buckingham (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
Trevor Dines (Plantlife)
Gareth Ellis (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)
Clive Faulkner (Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn)
Peter Jones (CCGC)
Beverley Lewis (Ymddiriedolaethau Natur Cymru)
Patrick Lindley (RSPB)
Charles Morgan (PONT)
Dafydd Roberts (Parc Cenedlaethol Eryri)
Chris Tucker (Comisiwn Coedwigaeth)

**Ymddiheuriadau**
Steve Chambers (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Peter Jennings (Dŵr Cymru), Jan Sherry (CCGC), Sheila Spence (Grŵp Ffwng Gwent), Sian Whitehead (CCGC)

**Aelodaeth**

- Trafodwyd aelodaeth y grŵp gyda'r bwriad o lenwi unrhyw fylchau o ran sgiliau neu sectorau. Cysylltu â buddiannau amaethyddol.

  **Cam Gweithredu - Barbara erbyn y cyfarfod nesaf**
- Cysylltu ag ymgeisydd priodol o Asiantaeth yr Amgylchedd.

  **Cam Gweithredu - Pete erbyn y cyfarfod nesaf**

**Cylch Gwaith**

- Gwnaethpwyd rhai addasiadau i Gylch Gwaith y Grŵp Ecosystem. Sylwadau ar y testun diwygiedig hwn i'w hanfon at Barbara <u>cyn diwedd mis Mawrth</u>.

  **Cam Gweithredu – Pawb cyn diwedd mis Mawrth**
- Cytunodd y grŵp mai ein prif swyddogaeth fyddai pennu targedau Cymreig, blaenoriaethu beth sydd ei angen, ym mhle, a phryd, nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu/adnoddau a rhoi cyngor ar faterion polisi, ymchwil a rheolaeth.

**Cynefinoedd**

- Mae tri ychwanegiad newydd at y rhestr cynefinoedd. Mae Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y rhain yn cael eu drafftio nawr ar lefel y Deyrnas Unedig. Bydd y rhain yn cael eu cylchredeg ar gyfer sylwadau pan fyddant ar gael.

  **Cam Gweithredu - Barbara**
- Pan fydd y cynlluniau wedi cael eu cytuno, bydd angen i'r grŵp bennu targedau Cymreig.

- Ar gyfer y cynlluniau cynefinoedd presennol, mae angen adolygu a diweddaru'r camau gweithredu a'r targedau i adlewyrchu'r targedau cenedlaethol newydd a'r angen am dargedau Cymreig. Angen i'r canlynol weithredu <u>cyn diwedd mis Ebrill</u> ac anfon manylion at Barbara:-

Calchbalmant – Gareth
Gorgors - Pete
Gweundir yr Ucheldir – Jan
Glaswelltir Calchaidd yr Ucheldir - Barbara
Bydd y fersiynau drafft hyn yn cael eu dosbarthu ar gyfer sylwadau.

**Cam Gweithredu - Gareth, Pete, Jan a Barbara cyn diwedd Ebrill**

**Rhywogaethau**

- Mae angen i ni aros am y rhestr rhywogaethau ddiwygiedig gan Jan. Mae Trevor yn gweithio ar y gwaith cyfeirio, dyrannu i bartneriaid arweiniol ac yn y pen draw i awdurdodau lleol / Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer gweithredu. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, gall y grŵp ddechrau ystyried cyfleoedd i grwpio rhywogaethau ar gyfer gweithredu ac ati.
- Teimlid y byddai canllaw syml iawn i broses y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn ddefnyddiol iawn. **Cam Gweithredu Jan a Trevor**

**Camau Polisi**

- Mae'r grŵp polisi wedi gofyn i bob grŵp Ecosystem edrych ar y Camau Polisi presennol a nodi'r rhai nad ydynt yn cael eu gweithredu a'r rhai hynny sydd â blaenoriaeth uchel nawr. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith o adolygu'r cynlluniau cynefinoedd presennol.
  **Cam Gweithredu Gareth, Pete, Jan a Barbara cyn diwedd Ebrill**
- Dylai pawb anfon ebost at Barbara <u>cyn diwedd mis Chwefror</u> yn dweud beth yn eich barn chi yw'r pum prif gam polisi er mwyn datblygu camau bioamrywiaeth yn yr ucheldir.
  **Cam Gweithredu Pawb cyn diwedd Chwefror**
- Cytunwyd y bydd Echel 2 yn hollbwysig wrth benderfynu a fydd mesurau amaeth-amgylcheddol yn yr ucheldir o fudd i fioamrywiaeth ac yn helpu i gyrraedd targedau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r grŵp yn ceisio cael rhyw ran yn y gwaith o ddatblygu Echel 2 gan ei fod yn effeithio ar yr ucheldir. Efallai y byddai'n bosibl cael cyflwyniad i aelodau'r grŵp gan Chris Westlake.
  **Cam Gweithredu Charles i ymchwilio**

**Cysylltu â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**

- Cytunodd y grŵp y dylem roi pwysau ar y grŵp polisi a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a gofyn am fwy o gefnogaeth i swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn cyflawni'r camau gweithredu cymhleth yn aml, sydd angen llawer o adnoddau, yn yr ucheldir. Yn y cyfamser, bydd angen adolygu a diweddaru llawer o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer cynefinoedd yr ucheldir. Byddai rhestr o gamau gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn yr ucheldir yn ddefnyddiol er mwyn gweld beth sydd wedi bod yn bosibl hyd yn hyn ac ym mhle mae'r bylchau.

**Cyflawni camau gweithredu**

- Barbara i anfon crynodeb o fframwaith yr ucheldir at Chris ac i anfon dolen gyswllt yn arwain i Fframwaith yr Ucheldir ar y we at bawb.
  **Cam Gweithredu Barbara**
- Chris i ymchwilio i ddull y Comisiwn Coedwigaeth o integreiddio cynlluniau coedwigoedd hirdymor â Fframwaith yr Ucheldir CCGC.
  **Cam Gweithredu Chris**

- Cytunodd y grŵp y dylem annog PBC i ddefnyddio mapio gofodol fel sail ar gyfer cynllunio defnydd tir a gosod targedau defnydd tir. Gellid defnyddio Fframwaith yr Ucheldir a'r prosiect Ardaloedd Pwysig i Adar fel sail ar gyfer gweithredu ar safleoedd statudol yr ucheldir â chynllunio ar gyfer grwpiau o rywogaethau eraill yn cael ei ymgorffori yn hyn. Mae angen ymestyn y dull gweithredu i adnodd ehangach yr ucheldir.

**Newid hinsawdd**

- Mae'n anodd dweud yn union ar hyn o bryd faint o effaith y mae newid hinsawdd yn ei gael a pha mor gyflym y mae'n digwydd oherwydd cyfyngiadau mewn modelau hinsawdd ac ansicrwydd ynglŷn ag effeithiau newid a ragwelir ar rywogaethau, priddoedd ac ecosystemau ehangach. Felly, er ei fod yn cydnabod pwysigrwydd effeithiau posibl newid hinsawdd ar yr ucheldir, cytunodd y grŵp mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain ar hyn o bryd oedd canolbwyntio ar gynnal cynefinoedd da a phoblogaethau o rywogaethau mewn cyflwr da, er mwyn gwella eu gallu i wrthsefyll newid amgylcheddol. Bydd monitro'n bwysig er mwyn sicrhau bod tueddiadau a newidiadau'n cael eu canfod yn gynnar. Ar hyn o bryd, mae rheoli tir yn cael llawer mwy o effaith ar gyflwr ecosystemau'r ucheldir a dylai gael ei weld fel y flaenoriaeth er mwyn mynd i'r afael â chyflwr y systemau hyn.

**Prosiectau graddfa tirwedd**

- Mae nifer o brosiectau graddfa tirwedd yn cael eu gweithredu yn yr ucheldir gan gynnwys:-
  LIFE Berwyn a'r Migneint
  Prosiect Pumlumon
  Prosiect Mynyddoedd Cambria
  Prosiect dalgylch rhan uchaf afon Conwy, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
  Prosiect Abergwesyn, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
  Prosiect parc rhanbarthol y Cymoedd (yn cael ei ddatblygu)
  Prosiect tirweddau angof
  Rhaglen Tir Eryri (yn dod i ben)
  Prosiect y Grug a'r Caerau yng Nghlwyd
  Prosiect cyllid cydgyfeirio Eryri (yn cael ei ddatblygu)

  Cytunodd y grŵp fod ganddo rôl glir wrth gefnogi datblygiad prosiectau ar raddfa tirwedd er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd targedau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o adnoddau nifer o'r prosiectau hyn sy'n cael ei dyrannu i fioamrywiaeth ar hyn o bryd, felly efallai y bydd angen i brosiectau yn y dyfodol ganolbwyntio'n benodol ar fioamrywiaeth er mwyn cyrraedd y targedau.

- Unrhyw ychwanegiadau at y rhestr hon i'w hanfon at Barbara <u>cyn diwedd Chwefror</u>.

**Cam Gweithredu Pawb cyn diwedd Chwefror**

**Adfer cynefinoedd ar gyn safleoedd conwydd**

- Teimlai'r grŵp ei bod yn bwysig ei fod yn cael mewnbwn cefnogol i waith y Comisiwn Coedwigaeth o ddatblygu polisi strategol, yn enwedig mewn cysylltiad ag adfer gorgors ar safleoedd wedi'u coedwigo. Pete i drafod cyfleoedd gyda Chris erbyn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu Pete a Chris**

**Ymchwil**

- Pawb i nodi anghenion ymchwil, bylchau a materion ac i anfon y rhain at Barbara cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu Pawb erbyn diwedd Mehefin**

**Unrhyw Fater Arall**

- Cytunwyd y dylai'r grŵp ystyried mater rhywogaethau goresgynnol yn ecosystemau'r ucheldir.
- Swyddog prosiect Blaenau'r Cymoedd i ddod i'r cyfarfod nesaf a rhoi cyflwyniad ar amcanion y prosiect ar gyfer trafodaeth.

**Cam Gweithredu Charles i drefnu**

- Dylid cysylltu â Fforwm yr Ucheldir Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod cyfnewid gwybodaeth a'r posibilrwydd i aelodau o bob grŵp fynychu cyfarfodydd ei gilydd.

**Cam Gweithredu Barbara**

**Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

- Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Mehefin yn swyddfeydd CCGC yn Aberystwyth